WNO

Welsh National **Opera**

Opera gan Rossini yw ***La Cenerentola*** a berfformiwyd am y tro cyntaf yn Rhufain yn 1817. Mae'n adrodd stori Sinderela, gyda rhai troeon ar hyd y ffordd, mewn byd tylwyth teg lliwgar, yn llawn hwyl, llygod, cymeriadau mawr a gwisgoedd amryliw. Crëwch eich Sinderela a'ch Tywysog eich hun gyda'r adnodd hwn, a defnyddiwch eu gwisgoedd i'w paratoi nhw ar gyfer y ddawns fawreddog!

# Doliau Papur Sinderela

## Byddwch angen:

- **Argraffydd a cherdyn neu bapur argraffu**
- **Siswrn**
- **Cerdyn**
- **Glud**



**Argraffwch y ffeil ar gyfer y doliau papur a'r ffeil ar gyfer y dillad papur. Argraffwch y doliau ar gerdyn os yw'n bosib, ond defnyddiwch bapur ar gyfer y dillad.**

**Os ydych wedi argraffu'r doliau ar bapur, bydd angen i chi ludo'r doliau ar ddarnau o gerdyn tenau i'w gwneud nhw'n fwy cadarn. Efallai gallwch ddefnyddio pecyn grawnfwyd gwag?**

**Pan fydd y glud yn sych, torrwch o amgylch y doliau'n ofalus. Islaw pob dol mae siâp a fydd yn helpu eich dol i sefyll, felly torrwch o amgylch y siâp a'r ddol mewn un darn. Gofynnwch i oedolyn eich helpu.**


**Yna, torrwch o amgylch coron a dillad dawns eich dol, gan gofio torri o amgylch y tagiau bychain sy'n plygu'n ôl wrth i chi wisgo eich dol. Eto, gofynnwch i oedolyn eich helpu.**

**Mae angen torri'r siapiau islaw'r doliau i'w helpu nhw i sefyll. Torrwch ar hyd y llinellau dotiog. Dylai fod gennych ddau ddarn o gerdyn tebyg i gylch y gallwch eu gosod ar waelod eich doliau i'w cefnogi nhw.**

**Yn ofalus, plygwch y tabiau sydd ar y dillad a'u gosod nhw ar y doliau, dylen nhw ffitio'n berffaith. Mae dillad dawns a choron ar gyfer y ddau gymeriad.**


**Os hoffech chi chwarae â'ch dol heb y sylfaen, torrwch o amgylch coesau a thraed eich dol.**


**Mwynhewch y ddawns!**






WNO









WNO